



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	22 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau")

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

Bydd y rheoliadau'n diwygio:

- (a) Deddf Meinweoedd Dynol 2004
- (b) Rheoliadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Cymeradwyaeth Foesegol, Eithriadau rhag Trwyddedu a Chyflenwi Gwybodaeth am Drawsblaniadau) 2006; a
- (c) Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OS yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Weinidogion Cymru mewn perthynas â rhai gofynion ansawdd, diogelwch a gofynion technegol yn ymwneud â rhoi meinweoedd. Nid oes effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydysyniad yn golygu swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai hyn, felly, fod yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau hyn yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â meinweoedd dynol sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007 i fewnosod adran newydd yn ymwneud â'r gallu i

olrhain, ansawdd a diogelwch mewnfurion, hysbysu digwyddiadau ac adweithiau andwyol difrifol, ac amrywiol ofynion technegol. Mae'r rheoliad newydd yn datgan y caiff yr awdurdod priodol bennu'r gofynion yn y meysydd hyn. Diffinnir yr awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. Byddai'r rheoliadau hyn yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod modd olrhain yr holl feinweoedd a chelloedd sy'n cael eu caffael, eu prosesu, eu storio neu eu dosbarthu yn y DU, yr holl ddata perthnasol sy'n dod i gysylltiad â'r meinweoedd a'r celloedd hynny, o'r rhoddwr i'r derbynnydd ac fel arall a gofynion technegol, gan gynnwys trwyddedu neu awdurdodi sefydliadau meinweoedd; systemau ansawdd; hyfforddiant; a meysydd eraill.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111174821/contents>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.